

ADRODDIAD Y CYNGOR CYMUNED 2022/2023. www.llangynhafal.org.uk

Helo a chroeso i holl drigolion Gellifor, Hendrerwydd, Llangynhafal a Llanychan sydd, gyda'i gilydd, yn creu cymuned/plwyf Llangynhafal.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd, rhaid i'r Cyngor Cymuned baratoi a chyhoeddi adroddiad (adroddiad blynyddol) ar flaenoriaethau a gwaith y Cyngor yn ystod y flwyddyn diwethaf, ac ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni. Dyma'n hadroddiad cyntaf a gobeithio y bydd o ddiddordeb i chi.

MATERION CYFFREDINOL – bydd y Cyngor yn cwrdd yn ffurfiol ar y nos Fercher olaf o bob mis (ac eithrio mis Awst a mis Rhagfyr) yng Nghanolfan Gymuned Gellifor. Mae strwythur penodol ac agenda lawn i'r cyfarfodydd hyn. Gall unrhyw un fod yn bresennol i arsylwi ac mae cyfle i'r cyhoedd ofyn cwestiynau.

Dyma'ch Cynghorwyr Cymuned:

Y Cynghorwyr Iona Pierce (Cadeirydd), Bryan Jones, Huw Jones, Kevin Shenton, Ian Jones, Iola Quinn, Paul Evans ac Andy Mitchelmore.

Bydd y Cyngor yn trafod amrywiaeth o bynciau ac mae deddfwriaeth yn rheoli'r ffordd y caiff y rhan fwyaf ohonynt eu trin. Mae materion y bydd preswylwyr yn eu codi'n cael blaenoriaeth ac, yn dilyn ymgynghoriad, daeth i'r amlwg bod preswylwyr yn awyddus i'r Cyngor roi sylw i'r materion a ganlyn:

*Gwella dodrefn stryd *Datblygu cae chwarae cymunedol *Gwella'r ganolfan gymuned
*Datblygu digwyddiadau cymunedol *Sefydlu gardd gymunedol *Coeden Nadolig
*Problemau'n ymwneud â baw ci a chadw'r pentrefi'n daclus *Arwyddion gwell ar gyfer llwybrau troed *Datblygu calendr o weithgareddau *Gwella cyflwr y ffyrdd *Tai fforddiadwy.

Mae'r paragraffau a ganlyn yn cynnwys gwybodaeth am y prif faterion a drafodwyd dros y 12 diwethaf a chyn hynny:

PROSIECT YR ARDD GYMUNEDOL - mae'r ardd gymunedol yn parhau i ffynnu diolch i waith caled Iola Quinn a nifer o wirfoddolwyr, a daeth yr ardd i'r brig yng nghystadleuaeth Gardd Gymunedol Orau Sir Ddinbych 2022.

Ar ôl trafod y posibilrwydd o ryddhau'r tir gyda Thai Sir Ddinbych, mae'r Cyngor Cymuned wedi medru sicrhau grantiau amrywiol i dalu am ddodrefn, cyfarpar, planhigion etc i'r ardd ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Dŵr Cymru ynghylch cael cyflenwad dŵr ar y safle. Rydym hefyd yn gobeithio trefnu i Sir Ddinbych gasglu gwastraff o'r ardd a threfnu arwyddion er mwyn i ymwelwyr a phreswylwyr fedru dod o hyd i'r ardd.

TAI Fforddiadwy – trafodwyd y mater hwn yn fanwl cyn pandemig Covid 19. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Tai Cynefin a Sir Ddinbych a dyma oedd y prif bwyntiau a godwyd - *Yr angen i bobl gofrestru diddordeb gyda Grŵp Cynefin
*Dim digon o dir ar gael *Datblygiadau tai fforddiadwy mawr yn Llanbedr, Llanfair a Llandyrnog lle clustnodwyd tir at y diben hwn * A fydd darpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy

yn cael ei chynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd Sir Ddinbych a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023/24 2023/2024? Rydym yn aros am wybodaeth am y CDLI newydd.

DIFFIBRILWYR – Mae pedwar diffibriliwr yn y gymuned erbyn hyn - ar safle Ysgol Gellifor, yn hen flwch ffôn Hendrerwydd, y fynedfa i Eglwys Llangynhafal a thafarn y Golden Lion. Rydym wrthi'n ystyried trefnu sesiynau hyfforddi i bobl leol ddysgu sut i'w defnyddio, a chaiff y manylion eu cyhoeddi cyn bo hir. Rydym yn ddiolchgar i Tony Killow am gael y cyfarpar ac am ei gynnal a'i gadw.

CYLLIDEB 2022/2023 – Praesept y dreth gyngor oedd £6500.00 neu £19.01 i bob eiddo band D, sef un o'r isaf yn Sir Ddinbych ac roedd yn cynnwys £2500.00 roedd yn rhaid i'r Cyngor ei ddarparu i dalu am gostau etholiadol posibl. Bydd archwilydd mewnol ac allanol yn archwilio cyfrifon y Cyngor bob blwyddyn ac ni chafwyd sylwadau negyddol nac argymhellion ganddynt.

ARWYDD YN Y COMINS - yn hanesyddol, yr enw ar yr ardal rhwng Gellifor a Hendrerwydd yw'r "Comins". Mae'n ymddangos bod yr enw'n dyddio'n ôl i'r adeg pan oedd yn dir comin, a hynny ganrifoedd yn ôl. Mae enw'r Comins i'w weld ar hen fapiau ond mae'r enw wedi'i hepgor yn ddiweddar ac roedd perygl y byddai'n diflannu'n gyfan gwbl.

Rhag i hynny ddigwydd cytunwyd, mewn ymgynghoriad â'r bobl leol, i gysylltu â'r adran Briffyrdd i godi arwydd ar y ffordd i'r Comins o gyfeiriad Gellifor, ger y fainc gymunedol. Ar ôl cynnal nifer o gyfarfodydd ar y safle, cytunwyd i osod yr arwydd, sy'n awr yn ei le.

MEINCIAU CYMUNEDOL - mae'r Cyngor Cymuned wedi dechrau rhaglen o waith cynnal a chadw mewn perthynas â'r meinciau amrywiol yn y gymuned a'r fainc yn y safle bws ger Ysgol Gellifor oedd y gyntaf i gael ei thrwsio. Rydym wrthi'n adolygu sefyllfa'r fainc yn y Comins ar hyn o bryd gan fod y safle'n wlyb ac yn fwdlyd. Rydym yn ystyried y posibilrwydd o osod cerrig/wyneb caled o dan y fainc yn lle'r glaswellt presennol.

ARWYDDION A DODREFN STRYD YNG NGHROESFFORDD CYFFION, LLANGYNHAFAL - roedd pryderon ynghylch yr holl ddodrefn stryd ar y safle hwn. Cynhaliwyd adolygiad a phenderfynwyd symud arwydd Llangynhafal i safle gyferbyn â Gwalia ar y ffordd i mewn i Llangynhafal.

MATERION PRIFFYRDD - mae'r Cyngor Cymuned yn cyfathrebu'n rheolaidd â Sir Ddinbych ynghylch amrywiaeth o faterion gan gynnwys cwynion am gyflwr y ffyrdd. Mae rhwyfant o waith trwsio wedi'i wneud yn ystod y 12 mis diwethaf ond mae angen gwneud llawer mwy. Bydd y Cyngor yn parhau i bwysu ar y Cyngor yn y cyswllt hwn.

PARC GWLEDIG MOEL FAMAU / LLWYBRAU TROED A LLWYBRAU CHEFFYL – mae cryn dipyn o ardal Llangynhafal yn rhan o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych i sicrhau nad oes dim yn rhwystro'r cyhoedd rhag defnyddio llwybrau troed, lonydd, giatiau, camfeydd etc a'u bod yn gallu mwynhau'r ardal wledig hardd ar garreg ein drws. Mae'r gwaith o wella'r llwybrau troed yn y gymuned yn mynd rhagddo ac mae giatiau mochyn yn cael eu gosod yn lle camfeydd. Mae cyflwr llwybr ceffyl Hwylfa Llwyn o Gellifor i Barc Gwledig Moel Famau yn dal yn flaenoriaeth ac mae camau wedi'u cymryd i glirio canghennau a malurion o'r nant.

TORRI GLASWELLT YN YSTOD TYMOR YR HAF – trefnwyd, unwaith eto, i David Weyman dorri a chynnal a chadw'r darnau mwyaf o dir glas yn y gymuned ynghyd â'r safleoedd o amgylch y meinciau cymunedol. Mae'r gwaith hwn wedi gwella golwg y gymuned yn arw yn ystod misoedd yr haf.

COEDEN A GOLEUADAU NADOLIG – trefnwyd i'r Cyngor Cymuned gael defnyddio'r system sy'n rhedeg y goleuadau stryd i oleuo'r goeden Nadolig. Mae hyn yn awr yn ddigwyddiad blynyddol ac mae'r Cyngor Cymuned yn ddiolchgar i Kevin Shenton a Mike Quinn, a Paul Evans yn benodol, am eu gwaith o osod y goeden a'r goleuadau yng nghanol Gellifor gyferbyn â'r ysgol.

BAW CI – i helpu i ddatrys problem baw ci, mae cyflenwadau bagiau baw ci wedi'u gosod o amgylch y gymuned ac mae'r Cyngor Cymuned yn ddiolchgar i Kevin Shenton am ei waith o ofalu am y cyflenwadau a bod bagiau'n cael eu prynu at y diben hwn.

Y GANOLFAN GYMUNED - y Cyngor Cymuned yw perchennog y Ganolfan a sefydlwyd Pwyllgor y Ganolfan Gymuned i'w rheoli. Llwyddwyd i sicrhau rhyddhad ardrethi mandadol ac yn ôl disgrisiwn ar gyfer y Ganolfan felly nid oedd angen talu ardrethi yn ystod 2022/2023. Mae Pwyllgor y Ganolfan Gymuned a'r Ysgol wrthi'n trafod mesurau i wella'r Ganolfan ar ôl sicrhau arian grant.

GWELLA'R RHYNGRWDYD - Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i raglen newydd Openreach, sef Rhaglen Partneriaeth Gymunedol Ffibr, i gyflwyno cysylltiadau rhyngrwyd cyflym a dibynadwy i bob rhan o'r gymuned. Mae'r Cyngor yn deall bod y gwaith gosod wedi'i gwblhau yn y gymuned ac mai dim ond nifer fechan iawn o dai sydd heb gysylltiad ffibr erbyn hyn ac mae'r rhain eisoes yn rhan o gynllun uwchraddio.

CAE CHWARAE CYMUNEDOL – Mae astudiaeth dichonoldeb ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu cae chwarae cymunedol ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau eraill wedi'i chynnal. Trafodwyd pob agwedd ar y gwaith gan gynnwys cyllid. Yn anffodus, nid yw'r Cyngor wedi gallu bwrw ymlaen â'r prosiect gan nad oes tir ar gael yn yr ardal. Mae cae chwarae'r ysgol ar gael i blant ei ddefnyddio ac rydym yn ddiolchgar i Lywodraethwyr yr Ysgol am eu cydweithrediad yn y cyswllt hwn.

MATERION ERAILL - Yn ogystal â'r eitemau uchod, mae'r Cyngor wedi trafod materion eraill yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys **ceisiadau cynllunio**, wrth iddynt godi, a materion ariannol, gan gynnwys ceisiadau am gymorth ariannol. Y rhodd ariannol mwyaf oedd i Glwb Pêl-droed Llangynhafal tuag at y gost o ddefnyddio cae chwarae Rhewl.

Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor Cymuned.
29.03.2023

